GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (CAERSŴS, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig tra bo gwaith yn cael ei wneud ar gefnffordd yr A470 ar Bont Caersŵs yng Nghaersŵs, yn Sir Powys.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o'r fynedfa i faes hamdden Caersŵs hyd at ei chyffordd â Stryd Hafren.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd-orllewin fydd mynd ar yr A489 tua'r dwyrain i Gylchfan Ffordd Dolfor, ar yr A483 tua'r gogledd-ddwyrain i Gylchfan Ffordd Ceri, ar y B4801 tua'r gorllewin i Gyffordd McDonald's, yna tua'r gogledd-orllewin ar y B4568 i ailymuno â'r A470 i'r gogledd-orllewin o Gaersŵs. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de-ddwyrain.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym am 19:00 o'r gloch ar 22 Tachwedd 2021 ac yn gweithredu hyd 20 Mai 2022. Dim ond dros nos (19.00 o'r gloch hyd 06:00 o'r gloch) y bydd y ffordd wedi ei chau, a hynny'n ysbeidiol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A470 TRUNK ROAD (CAERSWS, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary whilst works are undertaken on the A470 trunk road on Caersws Bridge at Caersws, in the County of Powys.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A470 trunk road that extends from the access to Caersws Recreation Ground to its junction with Severn Street.

The alternative route for north-westbound traffic will be via the eastbound A489 to Dolfor Road Roundabout, north-eastbound A483 to Kerry Road Roundabout, westbound B4801 to McDonald's Junction, then north-westbound on the B4568 to re-join the A470 north-west of Caersws. Vice versa for south-eastbound traffic.

It is expected that the temporary prohibition, which will be signed accordingly, will come into force at 19:00 hours on 22 November 2021 and operate until 20 May 2022. The road closure will be in force overnight only (19.00 hours to 06.00 hours) on an intermittent basis.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government